






Pan roedd yn 17, gadawodd Burges King's College i astudio erthyglau yn swyddfa Edward Blore, pensaer, a syrfëwr Abaty San Steffan.




Pan roedd Burges yn 36, rhoddodd gyfres o ddarlithoedd i'r Gymdeithas Celfyddyd. Roedd y pynciau'n cynnwys, celfi, crefft y gwehydd, ac addurniadau pensaernïol mewnol ac allanol.



Flwyddyn ar ôl ymuno â Chyngor Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain, etholwyd Burges i'r Gymdeithas Llyfrau Pensaernïol Tramor, sef grŵp elit o'r 15 pensaer mwyaf dylanwadol ym Mhrydain.




Tair blynedd ar ôl cyflwyno ei adroddiad i'r Arglwydd Bute, dechreuodd Burges weithio yng Nghastell Coch. Roedd y dyluniad yn seiliedig ar fersiwn Fictoraidd o gastell Canoloesol 'perffaith' gan ychwanegu systemau plymio a gwresogi Fictoraidd.




Pan roedd yn 35, cafodd Burges ei gomisiwn mawr cyntaf, Cadeirlan St Fin Barre yn Cork, Iwerddon.




Dechreuodd Burges fynychu Ysgol King's College yn Llundain, pan oedd yn 12. Roedd yn astudio peirianeg.




Cafodd Burges ei ethol i Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain pan roedd yn 32. Ddwy flynedd wedyn cafodd ei benodi i'w Gyngor.




Dechreuodd Burges weithio ar ei gartref ei hun, Tower House, Kensington, 9 mlynedd ar ôl dechrau gweithio ar Gastell Caerdydd. Treuliodd 6 mlynedd yn datblygu thema ar gyfer pob ystafell — gan gynnwys Amser, Cariad a'r Môr.




O ganol ei 20au a drwy gydol ei 30au teithiodd Burges yn helaeth, gan astudio celf nifer o ddiwylliannau, ac enillodd enw rhyngwladol fel archeolegydd canoloesol.




Pan roedd Burges yn 37 cyfarfu â 3ydd Marcwis Bute, gŵr cyfoethog arall a oedd wedi disgyn mewn cariad â phensaernïaeth ganoloesol. Aethant ati i gydweithio ar adnewyddu Castell Caerdydd, Castell Coch, ac adeiladu Park House yng Nghaerdydd.



Pan roedd yn 44, cyflwynodd Burges adroddiad i 3ydd Marcwis Bute ar Gastell Coch, a oedd yn cynnwys delweddau dyfrlliw o'r castell yn ei gyflwr 'presennol' a'i gyflwr 'ar ôl ei adfer'.



Dair blynedd ar ôl dechrau Cadeirlan St Fin Barre, dechreuodd Burges weithio ar gastell Caerdydd. Dechreuodd y gwaith gyda Thŵr y Cloc sy'n 150 troedfedd o uchder, mae ei ystafelloedd i gyd wedi'u haddurno'n foethus gydag eurwaith, cerfiadau a chartwnau.



Pum mlynedd ar ôl gadael King's College, symudodd Burges i Matthew Digby Wyatt fel 'prentis'. Roedd gwaith Burges gydag Wyatt, yn enwedig ar y Llys Canoloesol ar gyfer Arddangosfa Fawr 1851, wedi dylanwadu ar ei holl yrfa.